Adran Gwaith a Phensiynau

# Pensiynau gweithle gwell: Rhoi diddordebau cynilwyr yn gyntaf

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Hydref 2014

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/2/** neu e-bostiwch **PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk**. Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatad y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn a'r cyhoeddiad hwn atom yn
**Private Pensions Policy and Analysis**
**Department for Work and Pensions**
**1st Floor, Caxton House**
**6-12 Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: reinvigorating.pensions@dwp.gsi.gov.uk**

Argraffu ISBN 9781474110372
Gwe ISBN 9781474110389

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 21081401 10/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys

**Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau** 4

**Crynodeb Gweithredol** 5

## Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Mae pedair miliwn o bobl wedi cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer pensiynau gweithle ers 2012 – cam arwyddocaol wrth i ni ehangu cynilo ymddeol yn y DU. Bydd miliynau mwy yn cael eu cofrestru cyn 2018 wrth i'r farchnad gweithle gael ei drawsnewid.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pensiynau gweithle yn cael eu llywodraethu'n dda, gydag ymddiriedolwyr a rheolwyr cymwys a diddordebau aelodau wrth wraidd popeth a wnânt. Mae'r Papur Gorchymyn heddiw yn cadarnhau ein bod yn bwriadu gosod safonau llywodraethu gofynnol ar bob cynllun prynu arian. Bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod aelodau yn cael eu gwarchod beth bynnag yw'r math o drefniant gweithle y maent yn ei gynilo i mewn iddo.

Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r mesurau taliadau y cyhoeddom ym mis Mawrth – diogelu aelodau rhag taliadau uchel ac annheg. Heddiw, rydym yn darparu mwy o fanylion am sut y bydd y mesurau diogelu hyn yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fesurau i ysgogi mwy o dryloywder, fel y bydd cynilwyr pensiwn a'r rhai sy'n rhedeg cynlluniau yn gwybod yn union beth maent yn talu amdano.

Ochr yn ochr â'r Papur Gorchymyn heddiw rydym yn cyhoeddi rheoliadau drafft ar y mesurau llywodraethu a thaliadau a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd ac unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, yn dechrau o fis Ebrill 2015. Bydd yr ymgynghoriad yn para am bedair wythnos ac rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod hwnnw i sicrhau ein bod yn cael y ddeddfwriaeth bwysig hon yn iawn.

Mae'r Llywodraeth hon yn rhoi cynilwyr wrth wraidd y system bensiynau. Ochr yn ochr â'r hyblygrwydd a gyhoeddwyd yn y Gyllideb, bydd y mesurau hyn yn rhoi'r cyfle gorau i gynilwyr o sicrhau ymddeoliad annibynnol ariannol.

# Crynodeb Gweithredol

Erbyn 2018, bydd 8 i 9 miliwn o bobl yn dechrau cynilo neu'n cynilo mwy o ganlyniad i gofrestru awtomatig. Mae hyn yn gosod cyfrifoldeb newydd ar lywodraeth, rheoleiddwyr a'r diwydiant gwasanaethau ariannol i sicrhau bod cynlluniau gweithle yn cael eu rhedeg yn dda, er budd yr aelodau. Mae Papur Gorchymyn yr Adran Gwaith a Phensiynau, 'Pensiynau Gweithle Gwell: Mesurau pellach i gynilwyr', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn gosod ystod o fesurau i gyflawni'r cyfrifoldeb hynny, gan gynnwys cap ar daliadau mewn trefniadau cronfa diofyn, gwaharddiad ar daliadau a chynigion amhriodol i gyflwyno safonau llywodraethu gofynnol a gwella tryloywder ar draws cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn y gweithle.

Mae'r papur hwn yn adeiladu ar Bapur Gorchymyn mis Mawrth drwy gyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'w ymgynghoriad ar safonau llywodraethu gofynnol ac ar ddau gwestiwn ar dryloywder. Mae hefyd yn lansio ymgynghoriad ar reoliadau drafft ar lywodraethu a thaliadau mewn cynlluniau pensiwn galwedigaethol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon yn dod i rym o fis Ebrill 2015, ochr yn ochr â rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) mewn perthynas â chynlluniau pensiwn personol gweithle lle y bo'n briodol.

Bydd y papur hwn yn helpu aelodau o gynlluniau pensiwn gweithle, a phawb sy'n eu cyflenwi, i ddeall mwy am sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu ar gyfer y mesurau Pensiynau Gweithle Gwell. Yn Atodiad C mae'n cynnwys reoliadau drafft sy'n adlewyrchu polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â chynlluniau pensiwn galwedigaethol. Mae elfennau canolog y papur hwn fel a ganlyn:

- Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad blaenorol i osod safonau llywodraethu gofynnol mewn cynlluniau pensiwn gweithle drwy cyfrifoldebau newydd ar y rhai sy'n rhedeg cynlluniau. Bydd rheoliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cyflwyno'r gofynion hyn ar gyfer cynlluniau pensiwn galwedigaethol. Gan fod hyn yn ymateb nid ydym yn gofyn am sylwadau i'r polisi, ond rydym yn croesawu sylwadau ar y rheoliadau drafft. Bydd rheolau'r FCA yn gosod gofynion ar ddarparwyr pensiynau personol gweithle i sefydlu Pwyllgorau Llywodraethu Annibynnol (IGCs) i oruchwylio'r safonau gofynnol.

- Ymateb y Llywodraeth i ddau gwestiwn ymgynghori penodol o ran tryloywder y costau a thaliadau mewn cynlluniau gweithle a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ehangach y Llywodraeth i wella ar dryloywder.
- Y newyddion diweddaraf ar ddull y Llywodraeth i daliadau mewn cynlluniau pensiwn gweithle, gan ychwanegu manylder i'r mesurau a gyhoeddwyd ym Mhapur Gorchymyn mis Mawrth. Gan fod y papur hwn yn gosod mwy o fanylion ar sut y bydd cynnigion y Llywodraeth mewn perthynas â thaliadau yn gweithio, rydym yn chwilio am sylwadau i'r polisi hwn a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rheoliadau drafft.
- Mwy o fanylion am sut y bydd pensiynau gweithle yn parhau i gael eu goruchwylio gan Y Rheolydd Pensiynau (TPR) a'r FCA ar draws cynlluniau pensiwn galwedigaethol a chynlluniau pensiwn gweithle personol. Unwaith eto, rydym yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hyn mewn perthynas â chynlluniau pensiwn galwedigaethol gan fod y papur hwn yn cynnwys esboniad mwy manwl ar sut y bydd y Llywodraeth yn bwriadu y bydd hwn yn gweithio. Cyn bo hir, bydd y FCA yn cychwyn ar ymgynghoriad ar wahân mewn perthynas â chynlluniau pensiwn gweithle personol.
- Amserlen gweithredu ar gyfer yr agenda Pensiynau Gweithle Gwell.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am bedair wythnos, ac yn dod i ben ar 14 Tachwedd 2014. Unwaith y bydd sylwadau a safbwyntiau rhanddeiliaid wedi cael eu hystyried, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gosod rheoliadau yn y Senedd ar gyfer ei gymeradwyo yn gynnar yn 2015.

ISBN 978-1-78425-378-3

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Hydref 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**